

<b>Teitl:</b> Asesiad o Effaith cynigion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ar ddyfodol Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni  <b>Rhif AE:</b> Amh  <b>Adran neu asiantaeth arweiniol:</b> Y Weinyddiaeth Cyfiawnder  <b>Adrannau neu asiantaethau eraill:</b>	<b>Asesiad Effaith (AE)</b>		
	<b>Dyddiad:</b> 09/05/2014		
	<b>Cam:</b> Ymgynghoriad		
	<b>Ffynhonnell yr ymyrraeth:</b> Domestig		
	<b>Math o fesur:</b> Arall		
<b>Cyswllt ar gyfer ymholiadau:</b>			

<b>Crynodeb: Ymyrraeth ac Opsiynau</b>	<b>Barn yr RPC:</b> Amherthnasol
--	----------------------------------

Cost yr Opsiwn a Ffeirir (neu'r un mwyaf tebygol)				
<b>Cyfanswm y Gwerth Net Presennol</b> £750,000	<b>Gwerth Busnes Net Presennol</b>	<b>Cost net i fusnes y flwyddyn</b> (Cost net i fusnes y flwyddyn (cost net flynyddol gyfwerth i fusnes ar sail prisiau 2009))	<b>O fewn cwmpas y fethodoleg Un i Mewn Dau Allan</b>	<b>Y mesur yn cael ei ystyried yn</b>
			Nac ydy	Amh

**Beth yw'r broblem dan sylw? Pam mae angen i'r llywodraeth ymyrryd?**

Agorwyd Llys Ynadon newydd Casnewydd ym mis Medi 2013 ac ers hynny mae'r defnydd a wneir o Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni wedi lleihau'n sylweddol. Nid yw hyn yn debygol o newid yn y dyfodol agos. Mae digon o gapasiti wrth gefn yn Llys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwmbrân i ymdopi â'r gwaith sydd wedi'i restru ar hyn o bryd yn Llys Ynadon Caerffili. Nid oes gwaith wedi'i restru yn Llys Ynadon y Fenni ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu bod GLITEM yn gwario ar hyn o bryd i weithredu llysoedd nad oes eu hangen mewn gwirionedd.

**Beth yw'r amcanion polisi a'r effeithiau arfaethedig?**

Y nod yw lleihau capasiti dros ben yng Ngwent ac arbed costau.

**Pa opsiynau polisi sydd wedi'u hystyried, gan gynnwys unrhyw ddewisiadau yn lle rheoleiddio? Rhwch gyfiawnhad dros yr opsiwn a ffeirir (mwy o fanylion yn y Sylfaen Dystiolaeth)**

Dewis 1: Dal i weithredu yn Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni.  
 Dewis 2: Cau Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni.

Y dewis sy'n cael ei ffafrio yw Dewis 2 gan ei fod yn cyflawni amcan y polisi. Byddai'n bosibl cau un llys yn unig, ond byddai hynny'n gadael capasiti wrth gefn yn ystâd llysoedd Gwent ac ni fyddai'n cyflawni amcan GLITEM o wneud y defnydd gorau posibl o arian trethdalwyr a rhedeg y llysoedd yn effeithiol.

<b>A gaiff y polisi ei adolygu?</b> Bydd/Ni fydd yn cael ei adolygu. <b>Os yw'n gymwys, rhwch ddyddiad yr adolygiad:</b>						
A fydd ei weithredu'n mynd y tu hwnt i ofynnol sylfaenol yr UE?			Amherthnasol			
A yw unrhyw un o'r sefydliadau hyn o fewn ei gwmpas? Os nad yw sefydliadau micro wedi'u heithrio, nodwch y rheswm yn y Sylfaen Dystiolaeth.	<b>Micro</b> Ydy/Na	<b>&lt; 20</b> Ydy/Na	<b>Bach</b> Ydy/Na	<b>Canolig</b> Ydy/Na	<b>Mawr</b> Ydy/Na	
Beth fydd y newid cyfwerth â CO <sub>2</sub> mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr (cyfwerth â miliwn tunnell o CO <sub>2</sub> )	<b>Wedi'i fasnachu:</b>			<b>Heb ei fasnachu:</b> Dim		

**Rwyf wedi darllen yr Asesiad Effaith ac rwyf wedi fy modloni (a) ei fod yn rhoi golwg teg a rhesymol ar effaith, buddion a chostau disgwyliedig y polisi, a (b) bod y buddion yn cyfiawnhau'r costau.**

Llofnod y [SELeCT SIGNATORY] cyfrifol:		Dyddiad:	
--	--	----------	--

# Crynodeb: Dadansoddi a Thystiolaeth

# Opsiw'n Polisi 1

Disgrifiad:

**ASESIAD ECONOMAIDD LLAWN**

Blwyddyn Sylfaen y Prisiau 2014	Blwyddyn Sylfaen y GP 2014	Cyfnod mewn Blynnyddoedd 5	Budd Net (Gwerth Presennol (GP)) (£m)		
			Isel:	Uchel:	Amcangyfrif Gorau: £0m

COSTAU (£m)	Cyfanswm Trosiant (Pris Cyson) Blwyddyn	Cyfartaledd Blynnyddol (heb gynnwys trosiant) (Pris Cyson)	Cyfanswm Cost (Gwerth presennol)
Isel		?	
Uchel			
Amcangyfrif Gorau	£0		£0

**Disgrifiad a graddfa'r costau allweddol â gwerth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

Byddai GLITEM yn dal i dalu costau gweithredu parhaus Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni, ac ni fyddai'n cyflawni'r arbedion blynnyddol posibl o £50,000 a £30,000 yn y drefn honno a allai ddeillio o gau'r ddau lys.

**Costau allweddol eraill heb werth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

BUDDION (£m)	Cyfanswm Trosiant (Pris Cyson) Blwyddyn	Cyfartaledd Blynnyddol (heb gynnwys trosiant) (Pris Cyson)	Cyfanswm y Budd (Gwerth presennol)
Isel	Dewisol	Dewisol	Dewisol
Uchel	Dewisol	Dewisol	Dewisol
Amcangyfrif gorau	£0k	£0k	£0k

**Disgrifiad a graddfa'r costau allweddol â gwerth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

**Costau allweddol eraill heb werth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

Rhagdybiaethau/sensitifrwydd/risgiau allweddol Cyfradd disgownt (%) 3.5%

## ASESIAD BUSNES (Opsiw'n 1)

Effaith uniongyrchol ar fusnes (Cyfwerth â Blwyddyn) £m:			O fewn cwmpas OITO? Ydy/Na	Y mesur yn cael ei ystyried yn Mewn/Allan/Dim Costau Net
Costau:	Buddion:	Net:		

# Crynodeb: Dadansoddi a Thystiolaeth

# Opsiwn Polisi 2

Disgrifiad:

**ASESIAD ECONOMAIDD LLAWN**

Blwyddyn Sylfaen y Prisiau 2014	Blwyddyn Sylfaen y GP 2014	Cyfnod mewn Blynyddoedd 5	Budd Net (Gwerth Presennol (GP)) (£m)		
			Isel:	Uchel:	Amcangyfrif Gorau: £0.75m

COSTAU (£m)	Cyfanswm Trosiant (Pris Cyson) Blwyddyn	Cyfartaledd Blynyddol (heb gynnwys trosiant) (Pris Cyson)	Cyfanswm Cost (Gwerth presennol)
Isel			
Uchel			
Amcangyfrif Gorau	£90,000	?	£0
			£90,000

**Disgrifiad a graddfa'r costau allweddol â gwerth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

Mae'r costau ariannol yn cynnwys costau adleoli (tuag £20,000), costau datgomisiynu TG (tua £60,000) a chostau gwerthu (tua £10,000). Nid oes costau gwaith galluogi gan fod gan Lys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwmbrân ddigon o gapasiti yn barod i wneud y gwaith ychwanegol. Cymerwn yn ganiataol na fydd newid net mewn amseroedd teithio gan fod gwaith ynadon yng Ngwent yn cael ei ddsbarthu ar hyn o bryd i un o'r pedwar llys ynadon ar sail y dyddiad cynharaf sydd ar gael ac nid ar sail lleoliad y llys.

**Costau allweddol eraill heb werth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

Gallai rhai aelodau o staff GLITEM, ynadon a barnwyr weld cynnydd yn eu costau os ydynt yn gorfod teithio ymhellach i'w gwaith.

BUDDION (£m)	Cyfanswm Trosiant (Pris Cyson) Blwyddyn	Cyfartaledd Blynyddol (heb gynnwys trosiant) (Pris Cyson)	Cyfanswm y Budd (Gwerth presennol)
Isel			
Uchel			
Amcangyfrif gorau	£600,000		£80,000
			£840,000

**Disgrifiad a graddfa'r costau allweddol â gwerth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

Y buddion newid yw canlyniad gwerthu'r eiddo. Rydym yn amcangyfrif bod Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni yn werth tua £600,000 gyda'i gilydd ar y farchnad, ar sail gwerth y tir. Y buddion parhaus yw canlyniad arbedion mewn costau gweithredu. Cafwyd y ffigur ar gyfer gwerth presennol cyfanswm y budd, sef £840,000, drwy ychwanegu ffigur y budd newid gostyngol at swm dros bedair blynedd y ffigurau budd parhaus gostyngol.

**Costau allweddol eraill heb werth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

Rhagdybiaethau/sensitifrwydd/risgiau allweddol	Cyfradd disgownt (%)	3.5%
--	----------------------	------

Ni ddisgwyliar unrhyw newid yn y llwyth gwaith nac yn amseroedd aros defnyddwyr y llysoedd.

**ASESIAD BUSNES (Opsiw 2)**

Effaith uniongyrchol ar fusnes (Cyfwerth â Blwyddyn) £m:			O fewn cwmpas OITO?	Y mesur yn cael ei ystyried yn Mewn/Allan/Dim Costau Net
Costau:	Buddion:	Net:	Ydy/Na	

# Y Sail Dystiolaeth (ar gyfer taflenni crynodeb)

## Gwybodaeth Gefndir

### Cyflwyniad

1. Mae'r Asesiad Effaith hwn, sy'n gysylltiedig â phapur ymgynghori **IA NUMBER** y Weinyddiaeth Cyfiawnder, yn edrych ar y dewisiadau ar gyfer dyfodol Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni. Y dewis sy'n cael ei ffafrio yw cau Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni.

### Sail Resymegol

2. Agorwyd Llys Ynadon newydd Casnewydd ym mis Medi 2013 ac ers hynny mae'r defnydd a wneir o Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni wedi lleihau'n sylweddol. Nid yw hyn yn debygol o newid yn y dyfodol. Mae digon o gapasiti dros ben yng Ngwent i ymdopi â'r gwaith sydd wedi'i restru ar hyn o bryd yn Llys Ynadon Caerffili. Nid oes gwaith wedi'i restru yn Llys Ynadon y Fenni ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu bod GLITEM yn gwario ar hyn o bryd i weithredu llysoedd nad oes eu hangen mewn gwirionedd.

### Amcan Polisi a Chwmpas

3. Yr amcan yw lleihau capasiti dros ben yng Ngwent ac arbed costau.

### Dewisiadau Polisi

4. Mae dau ddewis polisi, y cyfeirir atynt fel Dewis 1 a Dewis 2. Dan Ddewis 1 gallai Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni barhau'n weithredol, a than Ddewis 2 byddai Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni'n cael eu cau.

### Grwpiau y mae hyn yn Effeithio arnynt

5. Ar wahân i GLITEM, gallai gweithredu Dewis 2 effeithio ar y bobl a'r sefydliadau a ganlyn:

- *Defnyddwyr llysoedd*
- *Ynadon a'r farnwriaeth*
- *Y Weinyddiaeth Cyfiawnder*
- *Yr Heddlu*
- *Gwasanaeth Erllyn y Goron*
- *Prawf (NOMS Cymru)*
- *PECS (Gwasanaeth Hebrwng Carcharorion i'r Ddalfa)*
- *Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc*
- *Gwasanaethau Cymorth i Ddiodefwyr a'r Gwasanaeth Tystion*
- *Busnesau lleol.*

6. Amlinellir yr effeithiau posibl ar y grwpiau hyn isod.

### Defnydd

7. Mae defnydd yn ffordd o fesur faint o gapasiti adeilad sy'n cael ei ddefnyddio. Ar gyfer pob adeilad, mae'n cael ei ddiffinio fel cyfanswm y llwyth gwaith mewn oriau wedi'i rannu â'r capasiti damcaniaethol, gan gymryd y gellir defnyddio pob ystafell am 5 awr y diwrnod a 248 o ddiwrnodau y flwyddyn. (Sylwer bod defnydd yn cael ei fesur ar sail capasiti yn hytrach na rhestrau llys.)
8. Fan hyn, byddem fel arfer yn darparu ffigurau defnydd ar gyfer y llysoedd sy'n cau am y flwyddyn ariannol flaenorol (2013/14). Fodd bynnag, ers agos y Llys Ynadon newydd yng Nghasnewydd,

mae'r rhan fwyaf o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud yn Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni yn cael ei wneud yn Llys Ynadon Casnewydd. (Mae'r Grŵp Materion Ynadon lleol wedi nodi nad yw am weld gwaith troseddol yn cael ei restru yn Llys Ynadon y Fenni o gwbl). O ganlyniad, gallai darparu ffigurau defnydd ar gyfer blwyddyn 2013/14 yn ei chyfanrwydd fod yn gamarweiniol yn yr achos hwn.

9. Mae'r ffigurau a roddir isod yn seiliedig ar y gwaith a wnaethpwyd rhwng adeg agor Llys Ynadon Casnewydd ar 30 Medi 2013 a mis Mawrth 2014, ac maent wedi'u cyfrifo ar gyfer y flwyddyn (h.y. gan gymryd y bydd y lefelau llwyth gwaith hynny'n parhau am weddill y flwyddyn):

Llys	Cyfanswm yr Ystafelloedd Llys	Capasiti Enwol (oriau y flwyddyn)	Llwyth gwaith (oriau y flwyddyn)	Defnydd
Y Fenni	2	2480	0	0%
Caerffili	3	3720	804	22%
Llysoedd Derbyn (Casnewydd a Chwbrân)	8	9920	6332	64%

### Egwyddorion Dadansoddiad Cost a Budd

10. Mae'r Asesiad Effaith hwn yn nodi effeithiau'r ddau ddewis sy'n cael eu hystyried, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, er mwyn ceisio deall beth fydd effaith net pob un ar y gymdeithas. Mae'n ceisio darparu dadansoddiad cost a budd yn ystyr ehangaf y term, gan gynnwys costau a buddion ariannol ac anariannol. Cwmpas daearyddol yr Asesiad Effaith hwn yw Gwent.

## Effeithiau Ariannol

### Costau Newid

11. Dan Ddewis 2, bydd GLITEM yn wynebu'r costau untro a ganlyn.
- Costau adleoli.* Costau sy'n gysylltiedig â symud gwaith, staff a chyfarpar rhwng safleoedd yw'r rhain. Amcangyfrifir bod cyfanswm y costau adleoli'n £20,000 (£10,000 ar gyfer Caerffili a £10,000 ar gyfer y Fenni), gan gynnwys cynnydd o 10% i ystyried tuedd optimistaidd.
  - Costau datgomisiynu TG.* Costau sy'n gysylltiedig â datgomisiynu'r cyfarpar TG yn llysoedd Caerffili a'r Fenni yw'r rhain. Amcangyfrifir bod cyfanswm y costau datgomisiynu TG yn £60,000 (£30,000 ar gyfer Caerffili a £30,000 ar gyfer y Fenni), gan gynnwys cynnydd o 20% i ystyried tuedd optimistaidd.
  - Costau gwerthu.* Mae'r costau hyn yn cynnwys y ffioedd cyfreithiol a'r gwaith marchnata sydd ei angen er mwyn gwerthu Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni. Amcangyfrifir bod cyfanswm y costau gwerthu yn £10,000 (£5,000 ar gyfer Caerffili a £5,000 ar gyfer y Fenni), gan gynnwys cynnydd o 10% i ystyried tuedd optimistaidd.
  - Costau gwaith galluogi.* Costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith y mae angen ei wneud er mwyn sicrhau bod gan y llys derbyn ddigon o gapasiti i ymdopi â'r gwaith ychwanegol. Nid oes costau gwaith galluogi yn yr achos hwn gan fod gan Llys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwbrân ddigon o gapasiti i ymdopi â'r llwyth gwaith ychwanegol.
  - Costau prosiect.* Mae'r costau hyn yn cynnwys y staff ychwanegol ac adnoddau eraill sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r prosiect. Disgwylir y bydd mân gostau ynghlwm wrth y prosiect (ar wahân i'r rhai sydd eisoes wedi'u nodi uchod) gan y disgwylir i'r broses gau ddiwydd fel rhan o'r busnes arferol.

### Costau Parhaus

12. Dan Ddewis 2, gallai Llys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwbrân weld cynnydd bychan mewn rhai costau gweithredu o ganlyniad i fwy o ddefnydd o gyfleustodau, costau cynnal a chadw uwch a

chostau newidiol uwch (megis argraffu, post a ffôn). Er hyn, mae'r cynnydd hwn yn debygol o fod yn fach.

13. Ar hyn o bryd nid oes gan GLITEM staff yn Llys Ynadon Caerffili nac yn Llys Ynadon y Fenni. Mewn gwirionedd, nid oes staff ynadon wedi'u lleoli'n barhaol mewn unrhyw lysoedd yng Ngwent gan eu bod i gyd wedi'u lleoli yn Llys y Goron Casnewydd, ac yn teithio yn ôl y galw i Gaerffili a'r Fenni.

### **Buddion Newid**

14. Rydym yn amcangyfrif bod Llys Ynadon Caerffili yn werth tua £450,000 ar y farchnad a bod Llys Ynadon y Fenni'n werth tua £140,000, ar sail gwerth y tir a chan gynnwys gostyngiad o 10% i ystyried tuedd optimistaidd.

### **Buddion Parhaus**

15. Rydym yn disgwyl y bydd GLITEM yn gwneud cyfanswm o £80,000 y flwyddyn o arbedion gweithredu (£50,000 ar gyfer Caerffili a £30,000 ar gyfer y Fenni), gan gynnwys gostyngiad o 10% i ystyried tuedd optimistaidd. Mae'r arbedion gweithredu'n cynnwys:
  - *Costau sefydlog is.* Ar hyn o bryd mae GLITEM yn talu £20,000 y flwyddyn ar gyfer pob un o'r ddau lys mewn costau sefydlog (h.y. costau nad ydynt yn amrywio yn ôl faint o waith sy'n cael ei wneud yn yr adeilad), ar ffurf trethi busnes. Rydym yn cymryd y gellir arbed yr holl gostau sefydlog hyn drwy gau Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni, llai 10% i ystyried tuedd optimistaidd.
  - *Costau rhan-newidiol is.* Ar hyn o bryd mae GLITEM yn talu £110,000 ar gyfer Caerffili a £50,000 ar gyfer y Fenni mewn costau rhan-newidiol (h.y. costau sy'n amrywio'n rhannol yn ôl faint o waith sy'n cael ei wneud yn yr adeilad), ar ffurf cyfleustodau, diogelwch, glanhau ac ati. Er y bydd rhai o'r costau hyn yn trosglwyddo gyda'r gwaith i Lys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwmbrân, disgwylw'n y bydd £40,000 yn cael ei arbed bob blwyddyn drwy grynhoi'r gwaith mewn llai o leoliadau (£30,000 o Gaerffili a £10,000 o'r Fenni), gan gynnwys gostyngiad o 10% i ystyried tuedd optimistaidd.

### **Effeithiau Amser Teithio**

16. Yr arfer yng Ngwent ar hyn o bryd yw neilltuo treialon i'r llysoedd ynadon (yng Nghasnewydd, Cwmbrân, Caerffili a'r Fenni) ar sail y dyddiad addas cynharaf sydd ar gael mewn llys yn hytrach na lleoliad y llys. Felly, er enghraifft, mae'n ofynnol i drigolion Caerffili neu Gasnewydd deithio i Gwmbrân ar gyfer rhai gwrandawiadau, tra mae'n ofynnol i drigolion Cwmbrân deithio i Gasnewydd neu Gaerffili ar gyfer gwrandawiadau eraill.
17. O ganlyniad, mae'n anodd mesur effaith Dewis 2 ar ddefnyddwyr cyfleusterau Llysoedd Ynadon yng Ngwent, gan fod pobl wedi arfer teithio i wahanol lysoedd yng Ngwent ar gyfer gwrandawiadau. Bydd rhai o drigolion Gwent yn cael siwrneiau hirach i'r llys ond bydd gan eraill lai o bellter i'w deithio; cymerir na fydd yr effaith net ar yr holl drigolion nac yma nac acw. Mae Casnewydd, Cwmbrân, Caerffili a'r Fenni wedi'u lleoli'n weddol agos at ei gilydd. Maent yn cael eu cysylltu gan rwydwaith ffyrdd da ac mae ganddynt gysylltiadau trafniadaeth da, felly ni fydd cynnydd mewn amseroedd teithio'n cael llawer iawn o effaith ar y rhan fwyaf o'r trigolion.
18. Mewn gwirionedd, mae'r effaith yn debygol o fod yn gadarnhaol, gan fod mwy o bobl yn byw yng Nghasnewydd a Chwmbrân nag yng Nghaerffili a'r Fenni, ac ni fyddant yn gorfod teithio i lys yng Nghaerffili neu'r Fenni mwyach.

### **2.6 Crynodeb o'r Effeithiau Ariannol**

19. Cynhelir y gwerthusiad economaidd dros 5 mlynedd gan ddechrau yn 2014/15. O ran gwerth presennol, mae gan Ddewis 2 gyfanswm costau o tua £90,000 a chyfanswm buddion o tua £840,000, a gwerth presennol net felly o tua £750,000. Mae crynodeb o gostau a buddion Dewis 2 i'w weld yn Nhabl 1 isod. (Cymerir y bydd yn cymryd blwyddyn cyn y byddwn yn dechrau gweld y budd.)

**Tabl 1: Crynodeb o effeithiau ariannol Dewis 2 (yn cynnwys tuedd optimistaidd)**

**Sefyllfa Net (Dewis 2 - Dewis 1)**

*Ffigurau mewn £, gwerth real 2014*

	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
--	---------	---------	---------	---------	---------

**Costau (heb gynnwys TAW)**

Adleoli	£20,000				
Datgomisiynu TG	£60,000				
Gwerthu	£10,000				
Gwaith Galluogi					
Amser Teithio					
<b>Cyfanswm</b>	<b>£90,000</b>				

<b>Costau GPN (5ml)</b>	<b>£90,000</b>
-------------------------	----------------

**Buddion**

Gwerth Marchnad		£600,000			
Arbedion Costau Gweithredu		£80,000	£80,000	£80,000	£80,000
<b>Cyfanswm</b>		<b>£680,000</b>	<b>£80,000</b>	<b>£80,000</b>	<b>£80,000</b>
<b>Cyfanswm Buddion Gostyngol</b>		<b>£660,000</b>	<b>£80,000</b>	<b>£80,000</b>	<b>£70,000</b>

<b>Buddion GPN (5 mlynedd)</b>	<b>£840,000</b>
--------------------------------	-----------------

<b>Budd Net</b>	<b>-£90,000</b>	<b>£680,000</b>	<b>£80,000</b>	<b>£80,000</b>	<b>£80,000</b>
<b>Budd Net Gostyngol</b>	<b>-£90,000</b>	<b>£660,000</b>	<b>£80,000</b>	<b>£80,000</b>	<b>£70,000</b>

<b>GPN (5 mlynedd)</b>	<b>£750,000</b>
------------------------	-----------------

*D.S.: Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu; efallai na fydd cyfanswm colofnau'n cyfateb i swm y gwerthoedd unigol.*

**2.6 Risgiau a Rhagdybiaethau**

20. Gwnaethpwyd y rhagdybiaethau a ganlyn wrth gyfrifo'r costau a'r buddion a nodir yn Nhabl 1 uchod.

- Ni fydd newid yn nifer yr achosion llys (ond gweler 'Profion Sensitifrwydd' isod) ac ni fydd unrhyw newid yn amseroedd aros defnyddwyr llys yn ystod y pum mlynedd nesaf.
- Ni fydd costau cyfreithiol yn newid dan Ddewis 2.

21. Mae llawer o gostau a buddion Dewis 2 yn amhendant. Gan fod tuedd i werthuswyr prosiectau fod yn oroptimistaidd, cymhwyswyd tuedd optimistaidd i'r ffigurau cost a budd a gyflwynir yn y ddogfen hon. Mae'r gwerthoedd a ragdybiwyd i'w gweld yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2: Tuedd optimistaidd**

<b>Cost / Budd</b>	<b>Tuedd Optimistaidd Dybiedig</b>
Cost Adleoli	10%
Cost Datgomisiynu TG	20%
Cost Gwerthu	10%
Cost Gwaith Galluogi	-
Gwerth Tir	10%
Arbedion Cost Gweithredu	10%

## 2.7 Profion Sensitifrwydd

22. Mae risg y bydd llwyth gwaith y llys yn cynyddu. Pe bai cyfanswm llwyth gwaith 2013/14 yn cynyddu 5%, yna, dan Ddewis 2, byddai'r defnydd o'r ystafelloedd llys yn Llys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwibrân gyda'i gilydd yn cynyddu i 77%, a phe bai'r llwyth gwaith yn cynyddu 10% yna byddai'r defnydd yn cynyddu i 81%. Mae'r ffigurau perthnasol yn cael eu crynhoi yn Nhabl 3 isod.

**Tabl 3: Sensitifrwydd i swm llwyth gwaith**

	Ystafelloedd Llys ar gael (Casnewydd a Chwibrân)	Capasiti (oriau y flwyddyn)	Llwyth gwaith (oriau y flwyddyn)	Defnydd
Gwaith presennol	8	9,920	7,288	73%
Gwaith presennol + 5%	8	9,920	7,653	77%
Gwaith presennol + 10%	8	9,920	8,017	81%

23. Gellid rheoli rhagor o gynnydd yn y llwyth gwaith drwy fynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd wrth restru, drwy ychwanegu capasiti (er enghraifft, rhagor o ystafelloedd neu ymestyn diwrnodau eistedd), neu drwy ailddyrrannu gwaith ar draws yr ardal leol e.e. cynnal rhai achosion ynadon yn Llys y Goron Casnewydd.
24. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r llwyth gwaith wedi bod yn lleihau at ei gilydd, felly nid yw cynnydd mwy nag sy'n cael ei ystyried uchod yn debygol.

## 3. Effeithiau Anariannol

### 3.1 Buddion Anariannol i GLITEM

25. Mae llawer o waith cynnal a chadw i'w wneud yn Llys Ynadon Caerffili ac yn Llys Ynadon y Fenni. Nid yw'r lle i gadw carcharorion yn Llys Ynadon Caerffili yn cydymffurfio â rheoliadau presennol y Gwasanaeth Hebrwng Carcharorion i'r Ddalfa. Mae difrod i'r nenfwd mewn un ystafell llys a lleithder mewn un arall, ynghyd â mân broblemau eraill. Yn Llys Ynadon y Fenni mae angen gwaith cynnal a chadw i'r lifft cyhoeddus, y bwyler, y cyntedd blaen a'r maes parcio.
26. Byddai Dewis 2 yn osgoi'r costau cynnal a chadw hyn. Nid yw hyn wedi cael ei gynnwys fel budd ariannol oherwydd gellid gohirio'r gwaith cynnal a chadw yn y tymor byr, ond byddai profiad defnyddwyr yn dioddef (gweler y papur ymgynghori cysylltiedig am fanylion).

### 3.2 Grwpiau y mae hyn yn Effeithio arnynt

27. Ceir crynodeb isod o effaith bosibl Dewis 2 ar bobl a sefydliadau ar wahân i GLITEM. Oherwydd natur y broses ymgynghori, nid ydym wedi gallu ymgynghori'n uniongyrchol â'r sefydliadau perthnasol eto; asesiad cychwynnol o'r effeithiau tebygol sydd yn yr adrannau isod a byddant yn cael eu diweddarau yn fersiwn terfynol y ddogfen hon gan ystyried yr adborth a gafwyd.
- *Defnyddwyr llysoedd.* Ceir crynodeb o'r effaith ar ddefnyddwyr llysoedd dan 'Effeithiau Amser Teithio' yn yr adran flaenorol.
  - *Ynadon a'r farnwriaeth.* Mae'n bosibl y bydd effaith negyddol ar ynadon a barnwyr sy'n gweithio yn Llys Ynadon Caerffili ar hyn o bryd ac a fydd yn gorfod symud i Lys Ynadon Casnewydd neu Lys Ynadon Cwibrân. Mae Gwent yn un Ardal Cyfiawnder Lleol felly nid oes angen uno meinciau.
  - *Y Weinyddiaeth Cyfiawnder.* Dim effeithiau.



- *Yr Heddlu*. Bydd effaith gadarnhaol gan y bydd gan swyddogion yr heddlu lai o safleoedd i fynd iddynt.
- *Gwasanaeth Erlyn y Goron*. Dim llawer o effeithiau, gan fod cyfleusterau swyddfa yn Llys Ynadon Casnewydd.
- *Prawf*. Fel uchod.
- *PECS (Gwasanaeth Hebrwng Carcharorion i'r Ddalfa)*. Bydd effaith gadarnhaol gan na fydd contractwyr PECS yn gorfod cludo carcharorion o Gasnewydd i wrandawiadau yn y Fenni a Chaerffili ar ôl hyn. Yn ychwanegol at hyn, mae gan Lys Ynadon newydd Casnewydd gysylltiadau fideo o'r carchar i'r llys.
- *Gwasanaeth Troseddwy'r Ifanc*. Dim effeithiau.
- *Gwasanaethau Cymorth i Ddiodeffwyr a'r Gwasanaeth Tystion*. Bydd yr effaith ar y Gwasanaeth Cymorth i Ddiodeffwyr a'r Gwasanaeth Tystion yn golygu y bydd angen i'r sefydliadau hyn edrych o'r newydd ar eu gweithrediadau, er mwyn darparu gwasanaeth di-dor, gan sicrhau bod cymorth ar gael o hyd yn y llys ac mewn lleoliadau eraill.
- *Busnesau Lleol*. Mae'n bosibl y byddai effaith negyddol ar fusnesau sy'n dibynnu ar Lys Ynadon Caerffili, yn enwedig cwmnïau cyfreithiol (nid yw'n debygol bod unrhyw fusnesau'n dibynnu ar Lys Ynadon y Fenni gan nad oes gwaith wedi'i restru yno ar hyn o bryd). Er hyn, mae'n debyg y bydd effeithiau cadarnhaol ar fusnesau sy'n agos at Lys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwmbrân.

### 3.3 Effeithiau ar Gydraddoldeb

28. Dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, wrth ymarfer ei swyddogaethau mae gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ddyletswydd gyfreithiol i roi 'sylw dyledus' i'r angen i:
  - a. Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd dan y Ddeddf;
  - b. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau (y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad oes ganddynt nodwedd warchoddedig); ac
  - c. Meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau.
29. Yn unol â'n cyfrifoldebau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rydym wedi ystyried, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, effeithiau tebygol Dewis 2 ar unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig. Er mwyn gwneud hyn rydym wedi cymharu cyfleusterau yn Llysoedd Ynadon Caerffili a'r Fenni â'r cyfleusterau yn Llysoedd Ynadon Casnewydd a Chwbrân, ac rydym wedi ystyried amseroedd teithio, cost a hygyrchedd cludiant cyhoeddus a phreifat rhwng Caerffili, Casnewydd, y Fenni a Chwbrân.
30. Fel y nodwyd yn y papur ymgynghori cysylltiedig, mae Llysoedd Ynadon Casnewydd a Chwbrân yn gwbl hygyrch i bobl anabl. Mae gan y ddau lys gyfleusterau o safon uwch i ddiodeffwyr, tystion a phobl eraill sy'n defnyddio'r llysoedd.
31. Yn unol â'i rwymedigaethau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan GLITEM bolisi addasiadau rhesymol a fydd yn sicrhau bod camau rhesymol yn cael eu cymryd er mwyn diwallu unrhyw gais gan ddefnyddwyr llys anabl sydd ag anghenion ychwanegol. Ar gyfer y defnyddwyr llys hynny y gallai cynnydd mewn amseroedd teithio fod yn broblem, bydd GLITEM yn ystyried ceisiadau am amseroedd cychwyn a gorffen mwy hyblyg i wrandawiadau llys fesul achos unigol. Gallai hyn helpu i leihau'r effaith ar rai defnyddwyr llys sydd â nodweddion gwarchoddedig, e.e. rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, sy'n amlach na pheidio yn ferched.
32. Gan fod cysylltiadau cludiant cyhoeddus rheolaidd, rhesymol a hygyrch rhwng Casnewydd a Chwbrân, a chan fod y cyfleusterau'n well yn y ddau lys hyn, nid ydym yn credu bod effaith y cynnig i gau Llysoedd Ynadon Caerffili a'r Fenni'n achosi anfantais benodol na sylweddol i'r rhai hynny sydd â nodweddion gwarchoddedig. O ganlyniad, rydym yn credu na fydd y cynigion ac unrhyw effeithiau a fydd yn deillio ohonynt yn arwain at wahaniaethu uniongyrchol nac anuniongyrchol o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010. Credwn hefyd fod y cynigion yn ffordd

gymesur o gyflawni'r nod busnes cyfreithlon o wneud defnydd mwy effeithiol o'r Ystâd Llysoedd a lleihau costau rhedeg.

33. Ein hasesiad cychwynnol, ar sail y wybodaeth sydd ar gael, yw ei bod yn annhebygol y bydd y cynigion yn arwain at aflonyddu ac erledigaeth o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010. Rydym hefyd wedi ystyried i ba raddau y mae'r newidiadau arfaethedig yn gydnaws â'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal a chredwn nad yw'r bwriad i gau'r llysoedd yn tansellio'r gallu i gyflawni'r amcan hwnnw. Rydym hefyd yn credu ei bod yn annhebygol iawn y bydd y cynigion yn effeithio ar y rhwymedigaeth i feithrin cysylltiadau da rhwng y rhai hynny sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai hynny nad oes ganddynt nodwedd warchoddedig.
34. Rydym yn croesawu adborth ar yr asesiad hwn.

### 3.4 Profion Effaith Benodol

35. Cynhaliwyd y profion effaith benodol a ganlyn ar gyfer Dewis 2.

- *Prawf effaith ar gystadleuaeth.*

1. A fydd y cynllun yn effeithio ar nifer y darparwyr gwasanaethau cyfreithiol?  
Na fydd.
2. A fydd y cynllun yn effeithio ar allu cyflenwyr i gystadlu?  
Na fydd.
3. A fydd y cynllun yn effeithio ar gymhellion cyflenwyr i gystadlu'n egniol?  
Na fydd.

- *Prawf effaith ar yr amgylchedd ehangach.*

Mae'r prawf effaith hwn yn ymwneud â chynigion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i gau Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni.

Gan y gallai hyn gael effaith ar yr amgylchedd mae wedi cael ei asesu gan ddefnyddio'r rhestr gyfeirio a gyhoeddwyd gan DEFRA (gweler <http://www.defra.gov.uk/corporate/about/how/policy-guidance/sd-impact/>); ystyriwyd pob effaith sylweddol bosibl (ac eithrio allyriadau carbon, sydd wedi cael eu dadansoddi yn yr asesiad o effaith Nwyon Tŷ Gwydr).

4. A fydd y cynllun yn agored i effeithiau disgwylidig newid yn yr hinsawdd?

Mae'r cynnig yn argymhell cau dau adeilad o faint cyffredin mewn canolfannau sydd â phoblogaeth lai na'r lleoliad arfaethedig, Casnewydd.

Mae llysoedd GLITEM wedi cael eu dosbarthu dros ardal sydd â nodweddion daearyddol amrywiol; nid yw'r llysoedd hyn wedi cael eu dewis oherwydd eu bod yn agos at yr arfordir nac oherwydd perygl llifogydd. Mae mwy o risg o lifogydd yng Nghasnewydd fodd bynnag. Fel prif dref mae mesurau lliniaru effeithiau'n debygol o gael eu cyflwyno er mwyn lleihau'r risg hon.

Mae'r adran wedi cyhoeddi Cynllun Ymaddasu i'r Newid yn yr Hinsawdd<sup>1</sup> ac mae'r cynllun hwn yn berthnasol i bob safle. Nid oes yr un o'r safleoedd wedi cael ei nodi fel safle sydd â risg sylweddol neu sy'n agored i effeithiau newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys digwyddiadau tywydd eithafol, gwres/sychder ac amharu ar drafnidiaeth. Mae hyn wedi cael ei ystyried ar sail Rhagolygon Hinsawdd y DU 09, gan ddefnyddio'r senario allyriadau canolog. Mae nifer o fesurau lliniaru wedi cael eu cyflwyno gan gynnwys arolygon cyflwr i gynnwys gofynion ymaddasu ac ailwerthuso safleoedd o ganlyniad i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Felly, ar gyfer y cynnig hwn, nid oes cynnydd net disgwylidig yn y duedd i fod yn agored i effeithiau disgwylidig newid yn yr hinsawdd.

5. A fydd y cynllun yn arwain at newid yng nghostau ariannol rheoli gwastraff neu ei effeithiau ar iechyd a'r amgylchedd?

---

<sup>1</sup> Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010; mae angen adolygu hwn nawr.

Mae cynhyrchu gwastraff yn cael ei gysylltu'n bennaf â nifer y staff (na fydd yn newid) yn hytrach na maint yr ystâd; o ganlyniad ni fydd effaith sylweddol. Bydd cynnydd untro yn y gwastraff a gynhyrchir pan fydd yr adeiladau'n cael eu gwagu, ond bydd y gwastraff yn cael ei waredu'n gynaliadwy yn unol â chanllawiau WRAP. Mae'r cynnydd untro hwn yn debygol o gael ei gydbwysu gan y ffaith y bydd ychydig yn llai o wastraff yn cael ei gynhyrchu yn yr ystâd lai. Bydd hyn yn arwain at effaith gadarnhaol net (lleihad) mewn costau yn ymwneud â gwasanaethau amgylcheddol a rheoli gwastraff.

6. A fydd y cynllun yn cael effaith sylweddol ar ansawdd yr aer?

Mae'r sgrinio cychwynnol yn awgrymu y gallai amseroedd teithio cyfartalog rhai defnyddwyr gynyddu o ganlyniad i'r rhaglen. Fodd bynnag, bydd eraill yn gweld amseroedd teithio llai, ac ni fydd unrhyw gynydd yn cael effaith sylweddol ar ansawdd yr aer.

7. A fydd y cynllun yn golygu newid sylweddol yn ymddangosiad y dirwedd neu'r drefwedd?

Nid fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Bydd unrhyw gamau pellach gan ddatblygwyr yn amodol ar ganiatâd cynllunio lleol.

8. A fydd y cynllun yn newid 1) graddau llygredd dŵr 2) lefelau tynnu dŵr neu 3) tuedd o berygl llifogydd?

Na fydd.

9. A fydd y cynllun yn newid 1) nifer neu amrywiaeth y rhywogaethau byw a 2) nifer, amrywiaeth neu ansawdd ecosystemau?

Na fydd.

10. A fydd y cynllun yn effeithio ar nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â sŵn neu ar lefel y sŵn y maent yn dod i gysylltiad ag ef?

Na fydd.

- *Prawf effaith nwyon tŷ gwyr.*

11. A fydd y cynllun yn arwain at fwy o allyriadau nwyon tŷ gwyr?

Na fydd.

- *Prawf effaith ar iechyd.*

12. A fydd y cynllun yn arwain at effeithiau andwyol ar iechyd?

Na fydd.

- *Prawf effaith ar hawliau dynol.*

13. A fydd y cynllun yn effeithio ar hawliau dynol?

Na fydd.

- *Prawf effaith ar bolisiau gwledig.*

Mae'r rhaglen hon yn rhan o'r rhaglen sy'n anelu at gau llysoedd/tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr fel rhan o waith rhesymoli ystâd y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'n bosibl y gallai hyn effeithio ar gymunedau gwledig.

Mae Defra yn diffinio aneddiadau sydd â phoblogaeth Cyfrifiad o dros 10,000 fel aneddiadau *trefol*, tra mae'r gweddill yn cael eu diffinio fel un o dri math *gwledig*: *tref a chyrion*, *pentref* neu *pentrefan a gwasgaredig*. Mae'r rhan fwyaf o'r llysoedd/tribiwnlysoedd sydd yn y rhaglen mewn trefi a fyddai'n cael eu diffinio fel aneddiadau 'Trefol' felly ni fydd prawfesur polisiau gwledig yn berthnasol.

Ar gyfer yr ychydig y mae'r diffiniad gwledig yn berthnasol iddynt gan ddefnyddio'r rhestr gyfeirio a gyhoeddwyd gan DEFRA (gweler isod; <http://www.defra.gov.uk/corporate/about/how/policy-guidance/rural-proofing/>) ystyriwyd pob un o'r effeithiau posibl.

14. A fydd y cynllun yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau ac ar y gwasanaethau sydd ar gael?

Mae'r polisi'n argymhell canoli gwasanaethau. Bydd effaith ar y gwasanaethau lleol sydd ar gael, ond ni ddylai nifer y gwasanaethau leihau gan fod y rhaglen gau'n trosglwyddo swyddogaethau llysoedd/tribiwnlysoedd i safleoedd cyfagos sydd â swyddogaethau tebyg.

15. A fydd y cynllun yn effeithio ar gostau darparu gwasanaethau?

Disgwylir i gost darparu'r gwasanaeth ostwng wrth i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wneud arbedion maint drwy ddefnyddio llai o adnoddau'n fwy effeithlon a chanoli gwasanaethau.

16. A fydd y cynllun yn effeithio ar hygyrchedd a seilwaith?

Mae'n debygol y bydd hyd siwrneiau'n cynyddu ac mae'n debyg mai yng Nghymru y bydd y cynnydd mwyaf. Er hyn, credir bod y cysylltiadau trafndiaeth yn ddigonol a disgwylir y bydd amseroedd teithio'n dal yn dderbyniol.

17. A fydd y cynllun yn effeithio ar gyfathrebu?

Nid yw'r polisi'n debygol o effeithio ar gyfathrebu a bydd dulliau cyfathrebu amrywiol yn dal i gael eu defnyddio.

18. A fydd y cynllun yn effeithio ar yr economi leol?

Mae rhai effeithiau negyddol yn bosibl yn y trefi lle bydd llysoedd/tribiwnlysoedd yn cau ond disgwylir mai bach iawn fydd yr effeithiau hyn. Bydd yr effaith gyffredinol yn fach hefyd gan y bydd gwasanaethau'n cael eu trosglwyddo i ardaloedd cyfagos.

19. A fydd y cynllun yn effeithio ar allu pobl i gael mynediad at gyfiawnder?

Na fydd.

- *Prawf effaith ar gwmnïau bach.*

20. A fydd y cynllun yn effeithio ar gwmnïau bach yn y rhanbarth?

Gweler uchod ar gyfer yr effaith bosibl ar fusnesau lleol.

- *Prawf effaith ar ddatblygu cynaliadwy.*

## Cam 1

### 1. Safonau Amgylcheddol

1a. A yw eich cynnig polisi'n arwain at effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd (gweler Prawf Effaith Benodol ar yr Amgylchedd Ehangach)?

Nac ydy

Os 'ydy' yw'r ateb, nodwch yr effeithiau hyn yn gryno isod:

Bydd y polisi'n arwain at ostyngiad bach mewn allyriadau carbon o ystâd GLIEM. Amcangyfrifir y gallai allyriadau blynyddol GLITEM ostwng 104 tCO<sub>2</sub> ar ôl gwerthu dau safle, hynny yw gostyngiad o 0.1% yng nghyfanswm allyriadau GLITEM.

Nid yw'r effeithiau eraill ar yr amgylchedd yn sylweddol. Bydd y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu a'r dŵr sy'n cael ei ddefnyddio'n lleihau ond dim ond o ychydig (gan fod y ddau'n gysylltiedig i raddau helaeth â nifer y staff a defnyddwyr llys, yn hytrach na maint yr ystâd). Mae bron bob un o'r effeithiau amgylcheddol yn gadarnhaol.

1b. Os ydych wedi ateb 'ydy' yng nghwestiwn 1a., a yw'r effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd yn berthnasol i unrhyw rai o'r gofynion cyfreithiol a'r safonau rheoleiddio a nodwyd?

Ddim yn berthnasol

Os 'ydynt' yw'r ateb, nodwch y safonau perthnasol yn gryno isod:

Ddim yn berthnasol

Os ydych wedi ateb 'ydynt' yng nghwestiwn 1b, a ydych wedi:
1c. Hysbysu Adran y Llywodraeth sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am y trothwy a chadarnhau gyda nhw sut y byddwch yn cynnwys yr effeithiau'n briodol yn y dadansoddiad costau a buddion?
Ddim yn berthnasol
1d. Hysbysu gweinidogion os oes angen?
Ddim yn berthnasol
1e. Cytuno ar gamau i liniaru neu wneud iawn os yw hynny'n briodol?
Ddim yn berthnasol

## 2. Effeithiau ar wahanol genedlaethau

2a. A ydych wedi asesu dosbarthiad prif gostau a buddion ariannol ac anariannol eich cynnig dros gyfnod? Gallwch gynnwys yr asesiad hwn yn eich Sail Dystiolaeth neu ei roi mewn atodiad.
Do
Roedd y pecyn ar gyfer asesu effaith nwyon tŷ gwydr yn cynnwys dadansoddiad cost a budd ariannol ac anariannol.

2b. A ydych wedi canfod unrhyw effeithiau sylweddol a allai gael effaith anghymesur ar genedlaethau'r dyfodol? Os ydych, rhowch ddisgrifiad byr ohonynt.
Naddo

Os ydych wedi ateb 'do' yng nghwestiwn 2b., a ydych wedi:
2c. Hysbysu gweinidogion os oes angen? Os ydych, rhowch fanylion.
Ni chanfuwyd effaith sylweddol, ond mae'r gweinidogion yn ymwybodol o'r bwriad i gau llysoedd.
2d. Cytuno ar gamau i liniaru neu wneud iawn os yw hynny'n briodol? Rhowch fanylion.
Ni chanfuwyd effaith sylweddol. Bydd y prawf effaith datblygu cynaliadwy yn cael ei adolygu yn ystod y cyfnod ymgynghori.

## Cam 2

**3. Pwrpas yr ail gam yw dod â chanlyniadau'r asesiad effaith a chanlyniadau cam cyntaf y prawf datblygu cynaliadwy at ei gilydd. Lluniwyd y cwestiynau a ganlyn i adlewyrchu'r ansicrwydd yn y dadansoddiad cost a budd a'ch helpu i ystyried sut i symud ymlaen yn dilyn tystiolaeth bellach o gam cyntaf y prawf datblygu cynaliadwy.**

3a. Nodwch yn y blwch priodol a yw'r cydbwysedd rhwng costau a buddion ariannol yn un:

Cadarnhaol iawn	Gweddol gadarnhaol	Niwtral at ei gilydd / cytbwys	Gweddol negyddol	Negyddol iawn
		<b>X</b>		

3b. Nodwch yn y blwch priodol a yw'r cydbwysedd rhwng costau a buddion ariannol yn debygol o fod yn un:

Cadarnhaol iawn	Gweddol gadarnhaol	Niwtral at ei gilydd / cytbwys	Gweddol negyddol	Negyddol iawn
		<b>X</b>		

3c. Nodwch yn y blwch priodol a yw canlyniadau cwestiynau datblygu cynaliadwy 1-3, ar y cyfan, yn debygol o fod yn rhai:

Cadarnhaol iawn	Gweddol gadarnhaol	Niwtral at ei gilydd / cytbwys	Gweddol negyddol	Negyddol iawn
		<b>X</b>		

3d. Nodwch yn y blwch priodol a yw'r cydbwysedd rhwng y costau a'r buddion ariannol ac anariannol a'r materion cynaliadwyedd sydd i'w hystyried, ar y cyfan, yn cael ei ystyried yn un:

Cadarnhaol iawn	Gweddol gadarnhaol	Niwtral at ei gilydd / cytbwys	Gweddol negyddol	Negyddol iawn
		<b>X</b>		

3e. Esboniwch ganlyniad terfynol 3d, gan egluro, er enghraifft, sut rydych wedi cymharu costau a buddion ariannol ac anariannol a sut rydych wedi datrys unrhyw wrthdaro rhwng y canlyniadau cost a budd a'r canlyniadau datblygu cynaliadwy.

Yr unig effaith sylweddol o ran datblygu cynaliadwy yw'r lleihad mewn allyriadau carbon, sydd wedi cael ei gyfrifo yn nhermau costau ariannol ac anariannol fel rhan o'r Aseiad Effaith Nwyon Tŷ Gwyr. Bydd effaith lai, ond effaith gadarnhaol er hynny, yng nghyswllt defnyddio dŵr a chynhyrchu gwastraff. Er bod agweddau cadarnhaol, o ran datblygu cynaliadwy ac o safbwynt ariannol, o ystyried maint yr adeiladau a'r ffaith fod hyn yn arfer bod yn rhan o ymgyrch fwy cymerir erbyn hyn y bydd yr effaith yn un niwtral at ei gilydd.